

ATODLEN 2

Rheoliad 59

Cofnodion sydd i gael eu cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau rheoleiddiedig

RHAN 1

Cofnodion sydd i gael eu cadw mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig

1. Mewn cysylltiad â phob unigolyn, cofnodion—

- (a) o bob asesiad perthnasol;
- (b) o gynlluniau personol;
- (c) o adolygiadau o gynlluniau personol;
- (d) o gynlluniau gofal a chymorth;
- (e) o adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth;
- (f) o'r gofal a ddarperir; gan gynnwys cofnodion dyddiol neu gofnodion o ymyriadau gofal penodol;
- (g) o ohebiaeth, adroddiadau a chofnodion mewn perthynas â chymorth ychwanegol a ddarperir gan wasanaethau addysg, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau perthynol eraill.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

2. Cofnod o unrhyw ffioedd gan y darparwr gwasanaeth i unigolion am y ddarpariaeth o ofal a chymorth ac unrhyw wasanaethau ychwanegol.

Gwybodaeth Cychwyn

I2 Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

3. Cofnod o'r holl feddyginiaethau a gedwir yn y gwasanaeth ar gyfer pob unigolyn a'r dyddiad a'r amser y rhoddwyd y meddyginiaethau hynny i'r unigolyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I3 Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

4. Cofnod o'r holl arian neu bethau gwerthfawr eraill a roddwyd gan yr unigolyn i'w cadw'n ddiogel neu a gafwyd ar ran yr unigolyn, y mae rhaid iddo gynnwys cofnod o'r canlynol—

- (a) y dyddiad pan roddwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr i'w cadw neu pan gafwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr;
- (b) y dyddiad pan gafodd unrhyw arian neu bethau gwerthfawr—

Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tim yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes

- (i) eu dychwelyd at yr unigolyn, neu
- (ii) eu defnyddio, ar gais yr unigolyn, ar ei ran;
- (c) pan fo'n gymwys, at ba ddiben y defnyddiwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr;
- (d) cydnabyddiaeth ysgrifenedig bod yr arian neu'r pethau gwerthfawr wedi eu dychwelyd.

Gwybodaeth Cychwyn

I4 Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

5. Cofnod o'r digwyddiadau a ganlyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth—
- (a) unrhyw ddamwain, anaf, neu salwch difrifol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar lesiant unigolyn;
 - (b) achos o glefyd heintus yn y gwasanaeth;
 - (c) unrhyw achos o ddwyn neu fwrgheriaeth;
 - (d) unrhyw atgyfeiriad diogelu a wneir mewn cysylltiad ag unigolyn;
 - (e) achosion o gwmpo a thriniaeth ganlyniadol a ddarperir i unigolyn;
 - (f) achosion o wlserau pwyso a thriniaeth ganlyniadol a ddarperir i unigolyn;
 - (g) dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheolaeth, atal neu ddisgyblu a ddefnyddir ar unigolyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I5 Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

6. Cofnod o bob ymarfer tân, dril tân neu brawf cyfarpar tân (gan gynnwys cyfarpar larwm tân) a gynhelir yn y gwasanaeth ac o unrhyw gamau gweithredu a gymerir i unioni diffygion yn y cyfarpar tân.

Gwybodaeth Cychwyn

I6 Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

7. Cofnod o'r holl gwynion a wneir gan unigolion neu eu cynrychiolwyr neu gan bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth ynghylch gweithrediad y gwasanaeth, a'r camau gweithredu a gymerir gan y darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gŵyn o'r fath.

Gwybodaeth Cychwyn

I7 Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

8. Cofnod o'r holl bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, y mae rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn—
- (a) enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, cymwysterau a phrofiad y person;
 - (b) copi o dystysgrif geni a phasbort (os oes ganddo un) y person;
 - (c) copi o bob geirda a geir mewn cysylltiad â'r person;
 - (d) y dyddiadau y mae'r person yn dechrau gweithio ac yn peidio â bod wedi ei gyflogi felly;

Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tim yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes

- (e) y swydd sydd gan y person yn y gwasanaeth, y gwaith y mae'n ei wneud a nifer yr oriau y mae wedi ei gyflogi bob wythnos;
- (f) cofnodion o gamau disgyblu ac unrhyw gofnodion eraill mewn perthynas â chyflogaeth y person;
- (g) cofnod o ddyddiad tystysgrif GDG ac a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i gynnwys y dystysgrif.

Gwybodaeth Cychwyn

I8 Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

9. Copi o restr ddyletswyddau'r personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a chofnod o ran a oedd y rhestr yn gweithio yn ôl yr hyn a fwriadwyd mewn gwirionedd.

Gwybodaeth Cychwyn

I9 Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

RHAN 2

Cofnodion ychwanegol sydd i gael eu cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

10. Cofnod o unrhyw ddodrefn y mae unigolyn yn dod â hwy i'r ystafell y mae'n ei meddiannu.

Gwybodaeth Cychwyn

I10 Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

11. Cofnod o unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau a ganlyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth—

- (a) unrhyw dân;
- (b) absenoldeb heb esboniad neu absenoldeb anawdurdodedig;
- (c) marwolaeth unigolyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I11 Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

12. Cofnod o'r holl ymwelwyr â'r gwasanaeth, gan gynnwys enwau ymwelwyr a'r personau y maent yn ymweld â hwy.

Gwybodaeth Cychwyn

I12 Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 2.4.2018, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

Statws

Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

[View outstanding changes](#)

Changes and effects yet to be applied to :

- Sch. 2 para. 1 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 2 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 3 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 4 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 5 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 6 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 7 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 8 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 9 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 10 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 11 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 12 coming into force by [S.I. 2017/1264 reg. 1\(2\)](#)
- Sch. 2 para. 5(a) word substituted by [S.I. 2019/757 reg. 16\(a\)](#)
- Sch. 2 para. 5(f) word substituted by [S.I. 2019/757 reg. 16\(b\)](#)

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by [S.I. 2019/757 reg. 5\(b\)](#)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by [S.I. 2022/832 reg. 3\(c\)\(iii\)](#)